TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

City & Guilds Hairdressing Level 1

Yn gryno

Mae'r sector trin gwallt yn symud yn gyflym a bydd cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd yn ystod ac ar ôl y rhaglen hyfforddi ddiddorol hon

Dyma'r cwrs i chi os...

... Ydych chi am gael gyrfa mewn trin gwallt

... Ydych chi'n weithgar ac yn gyfeillgar

... Ydych chi'n caru popeth sy'n ymwneud â gwallt a harddwch

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae nifer o fanteision i fod yn driniwr gwallt a byddai steilwyr cymwys yn dweud wrthych chi am y rhain. Os ydych chi'n meddwl am ddod yn driniwr gwallt, dyma'r prif resymau dros ddod yn un.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gallwch fod yn greadigol
Byddwch yn cwrdd â phobl newydd
Bydd cael gyrfa mewn trin gwallt yn rhoi cyfle i chi fod yn hyblyg gyda'ch oriau gwaith
Byddwch yn gallu darparu amrywiaeth o wasanaethau
Mae'n rhoi boddhad ac yn werth chweil

Mae ein cwrs wedi'i ddylunio ar gyfer pobl sydd â diddordeb gyrfa mewn trin gwallt ac mae'n ddelfrydol os oes gennych ychydig neu ddim profiad neu sgiliau mewn trin gwallt. Byddwn yn eich helpu i ddatblygu eich sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid wrth ddelio â chleientiaid a sgiliau cyflogadwyedd ar gyfer pob math o swyddi.

Byddwch yn dysgu am:

Ymgynghoriadau cleient
Sgiliau derbynfa
Siampwio
Chwyth-sychu
Torri sylfaenol
Y grefft o wisgo gwallt
Gwallt i fyny
Lliwio gwallt
Creu golwg cyflawn gan ddefnyddio lliw.

Mae disgwyliad eich bod yn mynychu lleoliad gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd naill ai bob wythnos neu mewn bloc. Gallwch chi drefnu hyn neu bydd eich tiwtoriaid yn eich cefnogi i ddod o hyd i leoliad addas.

Caiff y cwrs ei gyflwyno drwy:

Ddosbarthiadau theori
Gweithdai ymarferol
Amgylcheddau salon go iawn yn y coleg
Sesiynau masnachol
Arddangosiadau
Ymarferion chwarae rôl
Gwaith grwp
Lleoliad gwaith
Gweithgareddau cyfoethogi megis tripiau, ymweliadau, siaradwyr gwadd ac arddangosiadau allanol.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn cael eich asesu drwy asesiadau ymarferol, aseiniadau, prosiectau a phrofion amlddewis ar-lein sy'n cwmpasu gwybodaeth sylfaenol. Ar ôl ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

NVQ Lefel 1 Trin Gwallt ac Unedau L2 mewn Trin Gwallt
Cymwysterau ategol priodol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg
Sgiliau Cyfoethogi Creadigol (gweithgareddau cymunedol ac arddangosiadau)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gael eich derbyn ar y cwrs, bydd angen i chi feddu ar o leiaf 4 cymhwyster TGAU ar radd G neu uwch i gynnwys: Mathemateg/Rhifedd a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf neu gymhwyster Lefel Mynediad priodol.

Bydd angen i chi fod yn hunan-gymhellol, yn weithgar, yn gyfeillgar a bod â lefel uchel o gyflwyniad personol.

Bydd disgwyl i chi fynychu lleoliad gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae pob darpariaeth yn digwydd ar y campws a bydd un noson yr wythnos pan fyddwch chi yn y coleg tan yn hwyr.

Mae presenoldeb a phrydlondeb ar gyfer pob sesiwn yn un o ofynion pwysig y cwrs hwn.

Beth sy'n digwydd nesaf?

NVQ Lefel 2 mewn Trin Gwallt neu gyflogaeth ar lefel prentis iau.

Gwybodaeth Ychwanegol

Cod gwisg:

Mae'n rhaid gwisgo tiwnig gyda throwsus du ac esgidiau du mewn salonau
Mae'n rhaid clymu'r gwallt yn daclus i ffwrdd o'r wyneb
Ni ddylid gwisgo estyniadau ewinedd na lliw ewinedd

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Dim tyllau'r corff: modrwy briodas yn unig a ganiateir ei gwisgo yn y salon

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Y gost am hyn yw tua £192.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Ar gyfer 2023/2024 bydd y coleg yn ariannu'r gost o un wisg salon lawn. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu'r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Y pris ar gyfer 2023/2024 yw £45.

Gall fod costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadolygu a gallent newid.